



**1. Tywyswyr (Cyfeillion Ellis Wynne, Harlech)** - Cyfle i dywys ymwelwyr o amgylch y Lasynys Fawr, Harlech. Mae gwybodaeth am Elis Wynne/hanes Cymru yn fanteisiol ond darperir hyfforddiant o safon uchel

**2. Cymhorthydd Chwarae (Fforwm Chwarae Gogledd Orllewin Cymru)** Mae Fforwm Chwarae Gogledd Orllewin Cymru yn chwilio am wirfoddolwyr i oruchwylio a hwyluso plant (5 - 14) yn chwarae allan - gan gynorthwyo i greu awyrgylch dda a hwyliog.

**3. "Headway Gwynedd" – yn cefnogi pobl sydd wedi dioddef o anaf i'r ymennydd.** Mae'r mudiad yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda sesiynau hyfforddiant (ym Mhorthmadog) a digwyddiadau hyrwyddo (ee taith noddedig i fynyr Wyddfa – 20<sup>fed</sup> Mai). Hefyd mae angen gwirfoddolwyr yn eu cyfarfodydd misol ar foreau Sadwrn yn y Bermo.

**4. RSPB – Gweilch Glaslyn.** Mae Gweilch y Pysgod yn ôl ym Mhont Croesor, ac mae gwir angen rhagor o wirfoddolwyr i helpu ar y safle.



**5. Cynllun Ffrindia' Mantell Gwynedd** - yn chwilio am wirfoddolwyr i gyfeillio gydag unigolion dros 50 oed sydd eisieu cwmni neu ychydig o hwb i'w hunan hyder.



**6. Yr Urdd** – Gyda'r Eisteddfod yn ymweld â Glynllifon o'r 4<sup>ydd</sup>—9<sup>fed</sup> Mehefin, mae angen gwirfoddolwyr i helpu gyda'r stiwardio yn ystod yr wythnos.

**7. Radio Ysbyty Gwynedd** - Gwasanaeth darlledu arbennig yn Ysbyty Gwynedd. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys sôn wrth gleifion am y gwasanaeth; mynd o amgylch y wardiau yn casglu ceisiadau gan unigolion; ysgrifennu cwisiau; holi enwogion lleol; neu chwarae cerddoriaeth.



**8. Uned Digwyddiadau Cyngor Gwynedd** yn croesawu gwirfoddolwyr er mwyn creu bas-data o bobl fuasai'n gallu cynorthwyo gyda digwyddiadau yn y Sir - ee Wakestock, Taith y fflam Olympaidd. Darperir hyfforddiant.

**9. Canolfan Gyswilt Plant (ar ran Relate)** - Angen gwirfoddolwyr ar foreau Sadwrn ym Mangor a Phorthmadog i helpu i groesawu plant a rhieni, paratoi diodydd a chlirio ar y diwedd y sesiwn.



**10. Ras am Fwyd – Cancer Research UK** eisau gwirfoddolwyr i helpu gyda'r digwyddiad ym Mharc Helen, Caernarfon ar 20fed Mai.

**11. NYAS Cymru** – mudiad sy'n sicrhau bod llais plant a phobl ifanc agored i niwed yng Nghymru yn cael ei glywed a'r camau priodol yn cael eu cymryd. Mae angen **Ymwelwyr Annibynnol** ar gyfer plant a phobl ifanc sydd heb lawer o gysylltiad â'u teuluoedd. Mae gwirfoddolwyr yn dod yn ffrindiau â phlant a phobl ifanc gan gynnig profiadau da iddynt a bod yn batrwm da yn eu bywydau.

**12. Elusen Cancr Tenovus (Siop Pwllheli)** -angen gwirfoddolwr ar gyfer gyrru fan a helpu gyda llwytho a dadlwytho dodrefn sydd yn cael eu rhoi i'r elusen.

**13. Cymdeithas Alzheimer's** yn dechrau sesiynau canu ar gyfer pobl sydd yn dioddef o ddementia a'u gofalwyr ym Mangor dydd Mercher, 16eg o Fai. Byddant yn cyfarfod pob pythefnos rhwng o 10.30am tan 12.30pm. Mae angen dau neu dri o wirfoddolwyr i helpu.



**14. Geidiau Cricieth** - yn cyfarfod ar nos lau a Gwener. Mae angen arweinwyr cynorthwyol a/neu rywun allai helpu gyda gwaith crefft, gemau, a gweithgareddau hwyliog yn yr awyr agored.

**15. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol** yn chwilio am wirfoddolwyr i gynorthwyo ym Maes Gwersylla Hafod y Llan yn Nant Gwynant. Mae'r tasgau yn cynnwys casglu tâl am wersylla, cadw'r maes gwersylla yn lân a thaclus a chynorthwyo i redeg y safle.



**16. Her yr Wyddfa – Gofal Cancr Marie Curie.** Mae angen gwirfoddolwyr i gofrestru, cymryd manylion cerddwyr a chael eu llofnod wedi iddynt ddod yn ôl o ben yr Wyddfa. Y teithiau i'w cynnal ar 10<sup>fed</sup> Mehefin, a 6<sup>ed</sup> Hydref 2012.

**17. Taith y Fflam Olympaidd**— Mae'r Fflam Olympaidd yn teithio drwy Wynedd ar 28 a'r 29<sup>ain</sup> Mai. Mae galw am gymorth gwirfoddolwyr i helpu gyda stiwardio ayb ar y dyddiau y bydd yn eich ardal chi!



I gael manylion pellach am unrhyw un o'r cyfleoedd uchod, cysylltwch â

Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd 01286 672626 / 01341 422575

[www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)